Bwrdd Busnes Asiantaeth Tŷ'r Cwmnïau – Crynodeb o'r Cofnodion – 27 Gorffennaf 2009

Cerdyn Sgorio Busnes Tŷ'r Cwmnïau (gan gynnwys y Grŵp Perchnogaeth Gwasanaethau)
Bu i'r Bwrdd fonitro'r cerdyn sgorio ym maes busnes, gan olrhain y cyflawniad yn ôl y targedau a osodwyd a chan nodi'r cynnydd a wnaed yn ôl y rhestr o eitemau oedd i'w gwireddu. Pleser gan y Bwrdd oedd nodi bod pob un o'r targedau cwsmeriaid o ran argaeledd gwasanaeth wedi cael ei fodloni ar gyfer mis Mehefin.

Model Cynllunio Baich Gwaith
Adolygodd y Bwrdd y model cyfredol, gan wneud nifer o argymhellion oedd i gael eu rhoi ar waith.

Targedau Baich Gwaith
Ar i fyny o hyd yr oedd tuedd y beichiau gwaith ac roedd yn bwysig i Dŷ'r Cwmnïau barhau i ganolbwyntio'i holl adnoddau ar reoli hyn wrth inni ymbaratoi ar gyfer Deddf Cwmnïau 2006.

Cerdyn Sgorio Lefel y Manteisio ar e-ffeilio
Nododd y Bwrdd gynnwys y cerdyn sgorio.

Targedau Cyhoeddus Tŷ'r Cwmnïau 2009/10
Nododd y Bwrdd y canlyniadau fel y cawsant eu cyflwyno.

Risgiau Tyngedfennol Bwrdd Busnes yr Asiantaeth
Adolygodd y Bwrdd y risgiau fel y cawsant eu cyflwyno.

Iechyd a Diogelwch
Roedd y Bwrdd yn fodlon i'r adran Adnoddau Dynol barhau i reoli'r mater hwn.

Gwerthoedd Tŷ'r Cwmnïau – 'Arwyr Di-glod'
Adolygodd y Bwrdd gynnydd y cynllun hwn.

Gostyngiad yn Lefel yr Ymholiadau e-ffeilio a Gâi eu Trin
Comisiynodd y Bwrdd waith pellach ar y mater hwn, a gâi ei weithredu ar ffurf prosiect.

Cyfrifon wedi'u Rhagdalu
Cytunodd y Bwrdd ag argymhellion y papur, yn amodol ar gydymgynghori â'r Tîm Cyfreithiol.

Cyfarwyddyd Prosiect Mewnrwyd
Ni wrthwynebodd y Bwrdd ddechrau'r prosiect hwn.

Debbie Marley
Ysgrifenyddiaeth
5 Awst 2009